**LC1140**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Lwfansau Llywodraethwyr (Cymru) 2005

Mae'r Rheoliadau yma’n darparu i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sydd â chyllidebau dirprwyedig dalu lwfansau i lywodraethwyr ac eraill sy’n aelodau o bwyllgorau. Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu i’r awdurdodau addysg lleol dalu lwfansau i lywodraethwyr ysgolion a gynhelir nad oes ganddyn nhw gyllideb ddirprwyedig, i aelodau nad ydyn nhw’n llywodraethwyr o bwyllgorau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir nad oes ganddyn nhw gyllideb ddirprwyedig ac i bersonau sy’n cael eu penodi i gynrychioli'r awdurdod addysg lleol mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch neu ar gorff llywodraethu ysgol annibynnol neu ysgol arbennig nad yw’n cael ei chynnal gan yr awdurdod addysg lleol.

Mae’r Rheoliadau’n dirymu Rheoliadau Addysg (Lwfansau Llywodraethwyr) 1999 mewn perthynas â Chymru.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Mae’r Rheoliadau’n dod i rym ar 31 Hydref 2005, sef yr un diwrnod ag un o’r pwerau galluogi sydd wedi’i grybwyll, hynny yw adran 19(3) o Ddeddf Addysg 2002. Mae’r ddarpariaeth yma’n cael ei dwyn i rym gan Orchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005. Mae’r pwerau galluogi eraill sydd wedi’u crybwyll mewn grym yn barod.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 11 Hydref 2005